

Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2020/21 – 2022/23

Sefydliad:	Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Arweinydd Strategaeth CAYC:	Dr Aulay Mackenzie
E-bost:	aulay.mackenzie@glyndwr.ac.uk
Rhif ffôn:	01978 293355

Adran A: Trosolwg

1. Uchelgeisiau strategol

Rhowch drosolwg o ddull tair blynedd [a thu hwnt os oes cynlluniau tymor hwy ar gael] eich sefydliad o safbwynt gweithgarwch ymchwil ac arloesi a gaiff ei gefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC). Efallai y byddwch am amlygu'r meysydd bras yr ydych yn eu targedu, a disgrifio sut bydd cyllid CAYC yn alinio â chenhadaeth eich sefydliad a'ch strategaethau mewnol. [Uchafswm o 300 o eiriau]

Mae gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam [WGU] bedwar maes strategol:

- Addysgu sy'n ysbrydoli
- Ymchwil sy'n trawsnewid
- Ymgysylltu sy'n galluogi
- Strwythur sy'n cynnal.

O fewn pob maes, bydd y brifysgol yn greadigol yn ei dull gweithredu i ddatblygu a chyflawni mwy. Mae gan y brifysgol uchelgeisiau ar gyfer pob maes strategol yn cynnwys cyflawni Pwerau Dyfarnu Gradd Ymchwil a chydabyddiaeth gwobr genedlaethol megis Prifysgol Fenter y Flwyddyn erbyn 2025.

Y meysydd strategol y mae cyllid CAYC yn alinio â nhw yw *Ymchwil sy'n trawsnewid* ac *Ymgysylltu sy'n galluogi*. Mae'r ddau yn alinio â pholisïau ymchwil ac arloesi ehangach Cymru a'r DU;

- Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru
- Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU
- Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Byddwn yn sicrhau bod "ein sylfaen ymchwil yn cefnogi arloesi sy'n rhoi hwb i gynhyrchiant mewn busnesau yng Nghymru, (Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru) a manteisio ar ein lleoliad, ger stadau diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Wrecsam a chynyddu'r cymorth i BBaChau yng ngogledd Cymru i ategu ein perthnasoedd cryf â chwaraewyr diwydiannol mawr yn y rhanbarth.

**Ymchwil Sy'n Trawsnewid:
Nod allweddol**

Trawsnewid a chyfoethogi'r sail wybodaeth, ac er mwyn iddi gael ei chymhwyso gan bartneriaid i ategu blaenoriaethau rhanbarthol a phryderon byd-eang drwy ddatblygu capasiti a pherfformiad ymchwil sy'n cael effaith gadarnhaol yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Ymgysylltu Sy'n Galluogi

Nod allweddol:

Cydweithio fel bod ein staff, ein myfyrwyr, ein haddysgu a'n hymchwil yn cyfoethogi'r ardal ac yn caniatáu twf ei phobl, ei chymunedau, ei heconomi, ei diwylliant a'r Brifysgol ei hun.

Mae Strategaeth Fenter y Brifysgol yn alinio â Gweledigaeth a meysydd strategol y Brifysgol, gan amlinellu sut bydd y brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid dinesig a chyflogwyr lleol, rhanbarthol a rhyngwladol i gefnogi arloesi a thwf economaidd.

Ymhlith y meysydd allweddol y bydd y brifysgol yn eu targedu mae:

- Cynyddu sgiliau entrepreneuriaidd drwy ehangu'r cymorth dechrau busnes i fyfyrwyr/graddedigion
- Creu, datblygu a chynnal rhagoriaeth academaidd, arbenigedd a gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth
- Gwella Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn y rhanbarth
- Datblygu arloesi ar sail lle a sicrhau parodrwydd masnachol
- Cryfhau gweithgareddau Cenhadaeth Ddinesig

2. Grant Capasiti

Esboniwch yn fras sut mae eich sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti sydd wedi'i gynnwys o fewn CAYC, a'r Gronfa Datblygu Capasiti Arloesi untro (gweler paragraff 14 yng nghylchlythyr W20/09HE am arweiniad pellach ar y Grant Capasiti). Sut caiff hwn ei ddefnyddio i gefnogi a gwella capasiti a darparu cymhelliant a gwella perfformiad o safbwynt cyfnewid gwybodaeth? [Uchafswm o 300 o eiriau]

Adnoddau Staffio

Gan adeiladu ar arbenigedd tîm presennol, bydd CDCA yn cynyddu adnoddau staffio drwy:

- Gyflwyno Rheolwr Arloesi i hybu gweithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth (KT) ac Arloesi
- Cyflwyno Swyddog Cyfathrebu Dwyieithog i sicrhau cyfathrebu ehangach â'r diwydiant a'r gymuned ynglŷn â mentrau, prosiectau a gwasanaethau, wrth atgyfnerthu ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg ar yr un pryd. Mae'r rôl hon hyd yn oed yn bwysicach ar hyn o bryd pan mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu ar-lein yn allweddol i gysylltu â phartneriaid allanol
- Cynyddu'r cymorth i fyfyrwyr a graddedigion sy'n dechrau busnes drwy ymestyn rôl y Cydlynnydd Entrepreneuriaeth rhan-amser presennol.
- Cyflwyno Swyddog Astudiaethau Achos o Effaith i goladu a rhoi cyhoeddusrwydd i waith Ymchwil ac Arloesi
- Creu rôl Weinyddol i gefnogi'r prosesau newydd sy'n ofynnol i fod yn sail i'r gweithgareddau a mentrau newydd ac ychwanegol

Ail-lansio talebau canolfannau trosglwyddo gwybodaeth

Byddwn yn adeiladu ar brosiect talebau NWKTH, gan brofi cynllun talebau newydd i ddarparu llwybr gwell at wobrau SMART a KTP, rhagor o ymgynghori academiaidd a mwy o gydweithio ag AB.

[*<https://www.glyndwr.ac.uk/en/Business/NorthWalesKnowledgeTransferHubs/>]

Cymorth entrepreneuriaid i ddechrau busnes

Bydd CDCA yn darparu rhagor o adnoddau i'r seilwaith Lolfa Fenter newydd ac yn gwella gwasanaethau cymorth.

Datblygu Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Bydd WGU yn datblygu cyfres o gyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus hyblyg yn ymwneud â menter. Bydd CDCA yn galluogi datblygu cyrsiau arloesol i ganiatáu i fusnesau dyfu a datblygu eu staff yn effeithiol yn yr amgylchedd wedi Covid.

Parodrwydd masnachol

Mae WGU yn anelu at ddarparu rhagor o wasanaethau, cyfleusterau a lleoedd technegol i gefnogi twf economaidd rhanbarthol. Bydd CDCA yn caniatáu ymchwil ar sail lle i angen y diwydiant a datblygu cyfleusterau a fydd yn caniatáu cynnal prosiectau, profion ac astudiaethau dichonoldeb ar raddfa fach dan arweiniad y diwydiant

Cenhadaeth Ddinesig

Bydd CDCA yn cefnogi prosiectau allweddol megis creu'r Brifysgol Blant gyntaf yng Nghymru, prosiect partneriaeth rhwng Cymunedau a Phrifysgolion Wedi'u Llywio gan Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE), prosiectau arloesi cymunedol dan arweiniad myfyrwyr a chefnogi datblygu Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru ymhellach.

Adran B: Cynnwys penodol

3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm

Nod CAYC yw darparu cymhelliant a gwobrwyo perfformiad, yn arbennig yn nhermau caffael incwm allanol. Amlinellwch gyfeiriad y daith, dros y tair blynedd nesaf, a fydd yn cefnogi'r gwaith i gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yn 3.1. Rhowch fanylion am feysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf. Amlinellwch ble y caiff CAYC ei defnyddio i ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, neu sut y bydd yn cefnogi datblygiadau newydd. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]

Bydd WGU yn cynyddu gweithgareddau yn ymwneud â Menter a Throsglwyddo Gwybodaeth o fewn y 3 blynedd drwy ddatblygu adnoddau mewnol ac adeiladau perthnasoedd allanol. Mae gan WGU gysylltiadau cryf â'r diwydiant a thystiolaeth dda o wella sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth myfyrwyr. Caiff WGU ei chydabod yn gynyddol am ei Hymchwil, Menter ac Arloesi, gyda phocedi o arbenigedd. Bydd chwistrelliad incwm yn rhoi hwb i'n perfformiad, gan ganiatáu i'r brifysgol gefnogi'n llawn fusnesau lleol a rhanbarthol i dyfu ac ysgogi'r economi.

Mae WGU mewn lleoliad da yn ddaearyddol ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac yn agos at ddwy Stad Ddiwydiannol fawr, ger coridorau'r A55 a'r M56. Mae'r economi leol yn amrywiol fodd bynnag mae nifer fawr o gyflogwyr yn perthyn i'r diwydiannau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, gyda rhai yn perthyn i'r Diwydiannau Creadigol a Thechnegol a TGCh.

Canolfannau Menter Arbenigol (Canolfannau EE) - Bydd fframwaith o 5 Canolfan yn cael ei sefydlu gan ddarparu cronfeydd wedi'u clystru o arbenigedd academiaidd ac adnoddau, sy'n berthnasol yn uniongyrchol i arbenigedd WGU ac anghenion diwydiannol ar sail lle.

Bydd gan bob Canolfan - Creadigol, Cymunedau, Busnes, Iechyd a STEM - arweinydd academiaidd a rhaglen o ddigwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cynnwys Eiddo Deallusol, masnacheiddio, entrepreneuriaeth, hyfforddiant ar offer arbenigol, rhaglenni masnachol a byddant yn darparu cyfleoedd i staff, myfyrwyr a'r diwydiant gydweithio.

Mae'r canolfannau yn rhan o'r nodau tymor hwy ar gyfer Y Weledigaeth ar gyfer Cymru. Fel prifysgol yng ngogledd Cymru rydym yn gwybod beth yw ein cryfderau ac arbenigedd a lle mae galw am y rheiny. Bydd fframwaith i ddarparu datblygiad wedi'i dargedu i staff, myfyrwyr a'r diwydiant, wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â heriau penodol i'r diwydiant/sector a ffactorau cyfyngol cyffredin, yn ganolog i'n strategaeth Canolfannau ein hunain.

Mae datblygu gallu ymchwil mewnol a rhagoriaeth academiaidd yn nod strategol hanfodol i WGU gyflawni RDAP, sydd yn ei dro yn adeiladu enw da a chyfle i fodloni amcanion strategol polisi y DU a Chymru yn ehangach. Bydd defnyddio cyllid CAYC i sefydlu'r Canolfannau yn helpu academyddion i wireddu cyfleoedd i fasnacheiddio eu harbenigedd ac yn galluogi'r Brifysgol i wasanaethau'r diwydiant a'r gymuned ehangach.

Bydd gweithgarwch menter yn deillio o'r Canolfannau EE, gan fwydo busnesau newydd, ymchwil fasnachol a gweithgarwch menter i'r economïau rhanbarthol a chryfhau cadwyni cyflenwi yn rhanbarthol a chenedlaethol, wrth alinio â phrosiect NWGD WGU. Nod y prosiect hwn yw creu cyfleuster ymchwil a datblygu ac arloesi o'r radd flaenaf, gyda chefnogaeth i gyd-fynd â chlystyrau gweithgynhyrchu uwch rhanbarthol gwerth uchel, potensial uchel ledled gogledd Cymru.

Bydd WGU yn cyflwyno Ysgol Arloesi i adeiladu adnoddau a phrofiad o ran cydweithio ar draws y diwydiant. Bydd creu Talebau Trosglwyddo Gwybodaeth a ariennir drwy CAYC a rhaglen KTP fechan yn darparu'r sylfaen:

CLIMB THE LADDER OF INNOVATION
Grow your business and stay competitive

Start your journey
enterprise@glyndwr.ac.uk

KT VOUCHERS MINI KTP SMART KTP

Glyndwr PRIFYSGOL Wrexham
Glyndwr UNIVERSITY

Parodrwydd masnachol mewn ymateb i "Ymchwil ac Arloesi: y Weledigaeth ar gyfer Cymru, Mai 2019":

1. Offer a Chyfarpar

Mae WGU yn ymateb yn gyflym i anghenion y diwydiant yn rhanbarthol, yn cynnwys heriau wedi Covid sy'n mynnu arloesi, ffyrdd newydd o weithio, technolegau a rhaglenni. I ehangu ymchwil ac arloesi ar sail lle mae angen cyfleusterau gwell arnom i gefnogi cwmnïau sy'n dymuno arloesi a datblygu. Bydd CAYC yn caniatáu i ni adolygu a diweddarau'r rhain yn unol ag angen y diwydiant yn rhanbarthol, gyda chyswllt ag arbenigedd y brifysgol, i ffurfio rhan o'r fframwaith Canolfannau Menter Arbenigol. Bydd y cyllid hwn yn ategu mentrau gwariant cyfalaf eraill yn cynnwys prosiectau Campws 2025 a NWGD y Brifysgol. Byddwn yn herio'r defnydd o arloesi i gyflawni effaith ehangach/ffwy, herio dulliau a chysyniadau traddodiadol i weld cydweithio ehangach rhwng sectorau'r diwydiant ac arbenigedd y brifysgol.

2. Ysgol Arloesi

Gan adeiladu ar lwyddiant prosiect Talebau Trosglwyddo Gwybodaeth gogledd Cymru, bydd WGU yn ymestyn y cynllun talebau drwy ddefnyddio cronfeydd CDCA/CAYC. Bydd y rhaglen yn cael ei hymestyn drwy gynnig mwy o dalebau i brosiectau hirach - hyd at 5 diwrnod yn hytrach na 3 - i gwmnïau fanteisio ar arbenigedd academiaidd WGU. Byddwn yn darparu hyd at 30 o ymyraethau talebau hyd at Awst 2021 i gwmnïau sy'n dymuno arloesi, ail-leoli, neu ailstrwythuro gan ganolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig, micro a newydd.

Bydd rhaglen KTP fechan yn creu'r cyfle i fusnesau gyflogi graddedigion i ymgymryd â phrosiectau strategol gyda'r potensial i arwain at SMART a/neu KTP gan greu llwybr KT i fusnesau. Bydd rhaglenni KT yn parhau i gydweithio ag AB i sicrhau'r budd mwyaf.

3. Rhaglenni PhD gyda chymhorthdal i'r diwydiant

. Gan ddefnyddio cyllid CAYC a'i ffrydio drwy'r Canolfannau EE, bydd WGU yn cefnogi'r diwydiant i gyflogi myfyrwyr PhD - Bydd y fenter hon yn ategu prosiectau megis KESS (<http://kess2.ac.uk/>) drwy gynnig opsiynau i'r rheiny nad ydynt yn gymwys. Bydd hyn o fudd i WGU drwy fwy o alluoedd ymchwil a'r budd ehangach i Gymru fydd mwy o effeithlonrwydd, llwybrau i'r farchnad, ehangu a chreu swyddi posibl.

4. Cyllid a Gallu i Ddatblygu Prosiectau

Mae cynnal ac adeiladu gallu i ddatblygu prosiectau ac adnoddau ac arbenigedd wrth ysgrifennu ceisiadau yn allweddol i fod yn sail i gynyddu incwm a chydweithio rhwng y brifysgol a'r diwydiant. Wrth i academyddion ddatblygu eu hymchwil ac arbenigedd bydd mwy o angen am gymorth i gwrdd â'r galw cynyddol.

5. Datblygu Datblygiad Proffesiynol Parhaus Masnachol

Byddwn yn creu cyfres hyblyg o gyrsiau sy'n berthnasol i'r diwydiant - wedi'i hybu gan adborth ac ymgynghori - ar ofynion sectorau lleol a rhanbarthol. Bydd ffocws penodol yn cael ei roi i'r amgylchedd wedi Covid, gan gefnogi busnesau gyda'u blaenoriaethau Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn yr amgylchedd newidiol hwn. Bydd WGU yn ymchwilio i angen ac yn adolygu ein cynnig cwrs a darpariaeth i gynyddu argaeledd drwy amrywio ein rhaglenni ar-lein a chysiau a addysgir ar y campws rhyngweithiol. Bydd cyrsiau yn benodol i sector yn cael eu cynhyrchu a bydd rhaglenni unigol yn cael eu cynnig, ochr yn ochr â chasgliad o gyrsiau llwybrau. Bydd y rhain yn cyfeirio at gyfleoedd datblygu proffesiynol a dysgu sgiliau uwch ehangach.

Bydd WGU yn cydweithio â sectorau i greu cyrsiau sy'n cefnogi twf sector penodol, gan gydweithio â phartneriaid y diwydiant i gefnogi cyflymu'r economi drwy ddiffinio meysydd blaenoriaeth. Er enghraifft; teilwra cyrsiau i'r sector twristiaeth ar ffyrdd o newid, arallgyfeirio a thyfu wedi Covid, gan ddefnyddio ein harbenigedd mewn twristiaeth sy'n ystyriol o ddementia yn unol â gogledd Cymru yn dod yn gyrchfan twristiaeth sy'n ystyriol o ddementia.

Byddwn yn dadansoddi prosiectau arloesi'r diwydiant cydweithredol i bennu bylchau o ran sgiliau o ganlyniad i weithdrefnau gweithio neu ddulliau gweithgynhyrchu newydd. Lle mae arbenigedd academiaidd yn amlygu'r angen, bydd yn hybu'r angen am hyfforddiant uwch. Bydd CAYC yn galluogi coladu data o brosiectau o'r fath i ddatblygu cyrsiau perthnasol, y gellir eu targedu i'r diwydiant ehangach, gan rannu arloesedd drwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus rhagweithiol i fusnesau.

Bydd datblygu Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn effeithio ar allu'r Brifysgol i wasanaethu angen rhanbarthol, gan gynyddu incwm masnachol a dyddiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus i fwydo i mewn i HEBCIS.

3.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm:

Amlinella'r tabl isod y targedau a nodir o fewn Strategaeth Fenter gyfredol y Brifysgol - gyda llwyddiannau yn erbyn targedau wedi'u hychwanegu.

Cylchlythyr CCAUC W20/09HE: Atodiad B

Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI)	Gwaelodlin	Targed				21/22
		17/18	18/19	19/20	20/21	
KPI 1: Lleoliadau myfyrwyr \$ (dyddiau /Cyfwerth â Llawn Amser) Targed	[anhysbys]			Cynnydd o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol	Cynnydd o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol	Cynnydd o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
KPI 1: Lleoliadau myfyrwyr \$ (dyddiau /Cyfwerth â Llawn Amser) Gwirioneddol		-	7.49	10.43 [Dros dro]		
KPI 2: Incwm menter*, yn cynnwys cyrsiau menter ac ymgynghori ar ymchwil. (£k) Targed	962 [15/16]	1058	1164	1280	1408	1549
KPI 2: Incwm menter*, yn cynnwys cyrsiau menter ac ymgynghori ar ymchwil. (£k) Gwirioneddol		1542 (46% yn uwch na'r targed)	1551 (33% yn uwch na'r targed)	1621 (27% yn uwch na'r targed) [Dros dro]		
KPI 3: Incwm trosglwyddo gwybodaeth‡ (£k) Targed	0 [16/17]	50	60	70	80	90
KPI 3: Incwm trosglwyddo gwybodaeth‡ (£k) Gwirioneddol		-	-	99	364 [Wedi'i sicrhau hyd yn hyn]	
KPI 4: Creu mentrau newydd yn cynnwys busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion, a Chwmnïau Deillio (#) Targed	25 [15/16]	28	30	33	37	40
KPI 4: Creu mentrau newydd (#) yn cynnwys busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion, a Chwmnïau Deillio Gwirioneddol		21	26	33 [Dros dro]		

*Incwm menter diffiniad HEBCIS

‡Incwm KT yw gweithgarwch incwm KTP, SMART, KP ac ymchwil gymhwysol

Yn ogystal â'r targedau a nodir o fewn strategaeth Fenter WGU a amlygir uchod, byddwn yn ailedrych ar y targedau hyn a chyda chymorth CAYC, bydd y brifysgol yn anelu at gyflawni'r canlynol:

Cynnydd o 15% mewn Incwm Menter o'r naill flwyddyn i'r llall yn hytrach na 10%

2 bartneriaeth KTP a/neu SMART yn 20/21

3 partneriaeth KTP a/neu SMART yn 21/23 a 22/23

Lleiafswm o 30 o Dalebau KT i'w defnyddio bob blwyddyn

2 raglen KTP fechan bob blwyddyn

1 Cwmni deillio yn 20/21

2 Gwmni deillio yn 21/22 a 22/23

Bydd y targedau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn cael eu cynyddu gyda rhagor o gyllid mewn blynyddoedd dilynol.

3.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag [Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru](#) gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:

- X Rhagoriaeth
- X Lle
- X Arloesi
- X Cydweithredu

3.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae uchelgeisiau Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r Weledigaeth drwy **gynyddu capasiti mewn meysydd allweddol**.

Bydd meysydd allweddol yn effeithio'n uniongyrchol ar allu'r Brifysgol i wella ei pherfformiad o ran arloesi a throsglwyddo gwybodaeth, cynyddu prosiectau cydweithredol AU ac AB â'r diwydiant, a chaniatáu ar gyfer datblygu prosiectau gwasanaethau cynaliadwy a pherthnasoedd â'r diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Yn ogystal, mae uchelgeisiau WGU yn caniatáu i'r Brifysgol ddarparu amgylchedd ymchwil ac arloesi mwy cefnogol yn fewnol a fydd yn caniatáu ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i'r diwydiant a thwf hynny ar gyfer budd economaidd ehangach. Yn benodol, bydd ein huchelgeisiau strategol yn cefnogi'r Weledigaeth gan gyflawni'r pwyntiau canlynol:

NODAU TYMOR BYR:

- Cryfhau ymgysylltiad ag UKRI - gan sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed a chynyddu llwyddiant cystadleuol y sector wrth sicrhau cyllid (*Adnoddau ysgrifennu ceisiadau*)
- mireinio, clystyru, canolbwyntio ar gryfderau a manteision rhanbarthol, a throsi'r arbenigedd â ffocws hwn yn ganlyniadau masnachol (*Menter ac ymgynghori academiaidd â'r diwydiant*)

CERRIG MILLTIR TYMOR CANOLIG:

- Adeiladu enw da a rhagoriaeth ar gyfer REF2021 (*datblygiad a chefnogaeth academiaidd, ôl-lenwi*)
- Cynyddu prosiectau cydweithredol AU ac AB â'r diwydiant (*defnyddio talebau KT*)
- mwy o sganio'r gorwel a chyflwyno ceisiadau masnachol (*Mwy o adnoddau ysgrifennu ceisiadau*)
- amgylchedd ymchwil a menter, cefnogol, wedi'i ddylunio'n dda a rhyngysylltiedig (*drwy'r Canolfannau*)

UCHELGEISIAU TYMOR HWY:

- Rhoi Cymru ar y map (*cydnabyddiaeth gynyddol fel ffynhonnell o arbenigedd*)

- bydd clystyrau sy'n dod i'r amlwg o arbenigedd pendant a thystiolaeth o lwyddiant masnachol drwy bartneriaethau a chydweithio, yn arwain at gyfranogiad gwell mewn rhaglenni ymchwil yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, gyda ffocws ar ein meysydd arbenigedd sydd wedi'u hen sefydlu.

4. Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

Amlinellwch y cymorth rydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd, sgil-fusnesau, a chyflawni targedau cynlluniau fel Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Rhowch wybodaeth am ble y bydd CAYC yn ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, a ble y mae'n eich galluogi i fuddsoddi mewn twf pellach. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE.

Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]

Fel rhan o'r Strategaeth Fenter, mae WGU wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad entrepreneuriaidd myfyrwyr a graddedigion a mentrau cymdeithasol drwy:

- Hyrwyddo gweithgarwch entrepreneuriaidd allgyrsiol
- Gwreiddio entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm ymhellach
- Cynyddu gweithgarwch egino drwy hyrwyddo a chefnogi'r corff myfyrwyr
- Gwella ansawdd gofod y Lolfa Fenter
- Annog cymorth parhaus i fyfyrwyr sy'n dechrau busnes
- Cefnogi gweithgarwch mentrau cymdeithasol myfyrwyr
- Annog gweithgarwch gwirfoddol

Mae WGU yn darparu ystod gynhwysfawr o weithgareddau, mentrau a chymorth i fyfyrwyr ar bob cam o'u taith i ddechrau busnes. Mae WGU yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Syniadau Mawr Cymru, mentrau megis yr Hwb Menter lleol a cholegau AB i sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at gymaint o gymorth ag sydd ei angen arnynt.

Mae WGU wedi dechrau ei thaith tuag at wreiddio ecosystem entrepreneuriaidd yn ei diwylliant. Mae ein cynllun strategol cyfredol yn cefnogi menter ac entrepreneuriaeth ac mae strwythur y Brifysgol wedi cael ei ddiweddarau, drwy ddatblygu swyddogaeth Fenter ganolog, dan arweiniad y Dirprwy Is-ganghellor, i adlewyrchu pwyslais strategol y sefydliad ar entrepreneuriaeth a menter drwy ei weithgarwch.

Gweledigaeth ac ymrwymiad strategol ar gyfer Cyllid Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid (YES) ar gyfer 2019-2021:

- I bob person ifanc ddeall entrepreneuriaeth a bod yn ymwybodol o'r adnoddau a gweithgareddau ar waith i'w cefnogi i adeiladu hyder a'u galluogi i wneud cynnydd gyda'u taith entrepreneuriaidd
- Adeiladu prosiectau cydweithredol a phartneriaethau strategol cryfach gyda sefydliadau megis Coleg Cambria, Syniadau Mawr Cymru, Creu Sbarc, Busnes Cymru a Hwb Menter Wrecsam, i sicrhau cymorth a gwasanaeth o'r safon uchaf i bobl ifanc

- Gwthio'r agenda entrepreneuriaidd, gan gynyddu ein targedau ar gyfer unigolion a gefnogir a busnesau a ddechreuir bob blwyddyn

Mae WGU yn gweithio'n glos â'r fframwaith a geir o fewn y rhaglen Entrepreneuriaeth leuencid, gan anelu at dargedau yn y tri maes allweddol, Ymgysylltu, Grymuso a Chyfarparu.

Ymgysylltu

Bydd cyllid CAYC yn ehangu capasiti cyfredol WGU i ymgysylltu myfyrwyr â'r daith entrepreneuriaidd. Gellir ymestyn yr wybodaeth glir a roddir i fyfyrwyr yn ystod cynefino ynghylch y daith entrepreneuriaidd i gynnwys mynediad at y Canolfannau EE i brofi amgylchedd menter, arloesi ac ymchwil esblygol, gan weithio ochr yn ochr ag academyddion a'r diwydiant.

Bydd gweithgareddau Canolfan a ariennir drwy CAYC yn cael eu cynnal yn ychwanegol at weithgareddau Entrepreneuriaeth leuencid, ac ar y cyd â nhw.

Grymuso

Mae taith y dysgwr yn parhau gyda'n gweithgarwch Grymuso, sy'n datblygu sgiliau, cysylltiadau, gwybodaeth a dealltwriaeth, ac yn darparu cyfleoedd i roi cynnig ar fenter mewn cymuned ddiogel a chefnogol. Bydd CAYC yn ehangu portffolios masnachol a menter o fewn y Canolfannau, fel y gall myfyrwyr dderbyn cymorth gwell, wedi'i dargedu gan academyddion i ddatblygu a phrofi syniadau, gyda mynediad at gyfleusterau ac offer gwell.

Cyfarparu

Wedi'i ddylunio ar gyfer myfyrwyr sydd â bwriad pendant o ddechrau busnes a chefnogi datblygiad busnesau newydd, bydd cyllid CAYC yn ategu gweithgarwch cyfarparu, gan y bydd busnesau newydd yn cael eu lleoli o fewn y fframwaith Canolfannau i ddatblygu rhwydweithiau newydd ag academyddion a'r diwydiant ac ennill rhagor o wybodaeth arbenigol sy'n benodol i'r sector.

Drwy greu ein Canolfannau Menter Arbenigol, bydd CAYC yn cefnogi'n llawn ein gwaith yn y rhaglen YES a bydd yn caniatáu i ni ymestyn ein darpariaeth er budd ein myfyrwyr a graddedigion. Dylid nodi bod cyllid YES yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2021 ar hyn o bryd, a fyddai, os na chaiff ei ymestyn neu ei aildechrau, yn effeithio ar allu WGU i barhau gyda'r uchelgeisiau uchel y gellid eu cyflawni gyda chyllid YES a CAYC wedi'i gyfuno.

Cymorth staffio ychwanegol

Bydd cyllid CAYC ar gyfer adnoddau ychwanegol yn caniatáu mwy o adnoddau staffio i'r tîm Menter allu cefnogi myfyrwyr a graddedigion. Yn benodol, bydd y Swyddog Cyfathrebu Dwyieithog yn gweithio ar draws y tîm Menter cyfan yn eu cefnogi i hyrwyddo ac ymgysylltu â myfyrwyr a'r diwydiant. Bydd sefydlu Canolfannau ar gyfer clystyru gweithgarwch menter yn hwyluso a hybu mynediad at gymorth arloesi a masnacheiddio sector-benodol, meithrin diwylliant o fenter a dod â'r diwydiant yn nes at academyddion a myfyrwyr. Bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cymorth ymchwil academaidd fasnachol a gweithgareddau menter.

Bydd Canolfannau EE yn bwydo busnesau newydd a chyfleoedd cydweithio masnachol arloesol i'r economïau rhanbarthol ac yn alinio â nodau strategol Rhaglenni Gweithgynhyrchu Uwch Bargen Twf y Gogledd. Byddant yn darparu gweithgareddau

hyfforddi a datblygu ar feysydd megis sefydlu menter gymdeithasol, entrepreneuriaeth, masnacheiddio ac Eiddo Deallusol.

Cydweithio rhwng AU/AB

Bydd y Brifysgol yn ymgymryd â dull gweithredu strwythuredig i gynyddu cydweithio rhwng AU/AB, gan arddangos gweithgarwch menter ar y cyd ac arloesi ar gyfer twf.

Gwella ein Gwobrau Gwella Entrepreneuriaeth

Lansiwyd ein Gwobrau Gwella Entrepreneuriaeth yn 2019 i arddangos BBaChau lleol a rhanbarthol, a busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion. Wedi'i ddylunio i ddatlu a hyrwyddo busnesau newydd llwyddiannus, roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Bydd y Brifysgol yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac yn ymestyn y digwyddiad i gynnwys cyfle i rwydweithio, adeiladu cysylltiadau a sicrhau mwy o sylw i'r busnesau sy'n cymryd rhan. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn dod yn rhan bwysig o'r amgylchedd Menter yng ngogledd Cymru ac y bydd yn denu nawdd yn y dyfodol.

Uchafu cyfleoedd

Mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â mentrau cyllidwyr eraill i uchafu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd myfyrwyr/graddedigion. Bydd creu pum Canolfan Menter Arbenigol yn caniatáu i ni ganolbwyntio ar ddatblygu ein rhaglenni mewn meysydd arbenigol penodol a bydd yn darparu cymorth egino gwerthfawr i fusnesau newydd mewn meysydd sector-benodol ar y cyd â'r diwydiant, AB a sefydliadau eraill.

Datblygu cymorth ar-lein

Yng ngoleuni Covid a'r angen i gynyddu cymorth yn fuan, rydym eisoes wedi cynyddu ein cymorth ar-lein i fyfyrwyr a graddedigion yn sylweddol, yn cynnwys ein portffolio cwrs i gefnogi datblygiad menter myfyrwyr, ac mae gennym gynllun gweithredu ar gyfer datblygu cymorth, adnoddau a chyflwyno ar-lein ymhellach.

Cymorth ar ôl dechrau busnes

Ar hyn o bryd rydym yn cynnig canolfan egino a fydd yn cael ei hehangu, adnewyddu ac uwchraddio. Mae gan fyfyrwyr a graddedigion fynediad at gynghorwyr busnes Llywodraeth Cymru a hybiau menter lleol, ond bydd arian CAYC yn caniatáu i ni greu digwyddiadau rhwydweithio i fyfyrwyr a graddedigion drwy'r Canolfannau EE a'u rhwydweithiau.

4.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

O Strategaeth Fenter WGU:

	Gwaelodlin	Targed			
Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI)		18/19	19/20	20/21	21/22
KPI 4: Creu mentrau newydd yn cynnwys busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion, a Chwmnïau Deillio (#)	25 [15/16]	30	33	37	40

Targedau o fewn y prosiect YES

	2019	2020	2021
--	------	------	------

Cylchlythyr CCAUC W20/09HE: Atodiad B

Ymgysylltu - Nifer y myfyrwyr/graddedigion yr ymgysylltir â nhw	4490	4600	4800
Grymuso - Nifer y myfyrwyr/graddedigion sy'n mynychu gweithdai/digwyddiadau ac yn cymryd camau gweithredol i ddysgu mwy	435	485	500
Cyfarparu (syniadau) Nifer y myfyrwyr/graddedigion ar y cam lle maent yn archwilio syniadau	50	60	65
Cyfarparu (cyn dechrau) Nifer y myfyrwyr/graddedigion sy'n profi'r farchnad, ymchwilio i ddechrau	30	32	35
Cyfarparu (wedi dechrau) Nifer y syniadau busnes sydd wedi dechrau	30	32	35

Yn ogystal â'r targedau a nodir uchod, bydd cyllid CAYC yn galluogi'r brifysgol i gyflawni'r canlynol bob blwyddyn:

Cefnogi 5 Menter Gymdeithasol yn ychwanegol i'r niferoedd uchod
Cynnydd o 10% yn nifer y busnesau newydd mewn busnes o hyd ar ôl 1 flwyddyn a 3 blynedd.

15 o fyfyrwyr y flwyddyn yn astudio'r modiwl sgiliau entrepreneuriaeth ar-lein
Cynnydd o 10% yn nifer y myfyrwyr sy'n ymgysylltu ar-lein

1 Cwmni Deillio yn 20/21

2 Gwmni Deillio yn 21/22 a 22/23

4.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag [Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru](#) gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:

- X Rhagoriaeth
- X Lle
- X Arloesi
- X Cydweithredu

4.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer twf busnes newydd a sgiliau yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae strategaeth WGU yn annog a chefnogi myfyrwyr a graddedigion i greu busnesau i gyfrannu at yr economi leol a rhanbarthol. Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau entrepreneuriaidd ehangach i'r rheiny sy'n dymuno bod yn hunangyflogedig ac mewn swyddi cyflogedig. Bydd hyn yn sicrhau bod cwmnïau yn gallu cyflogi staff sy'n fedrus wrth feddwl yn arloesol a defnyddio dulliau arloesol ac yn agored i ymchwil a datblygu.

NODAU TYMOR BYR:

- Darparu sawl llwybr i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau entrepreneuriaidd
- Creu amgylcheddau ymchwil cryfach o fewn y Canolfannau EE

- Cefnogi ac annog ffydd newydd o weithio, ymgysylltu myfyrwyr, academyddion i ddatrys problemau gyda'i gilydd
- Cydweithio a chyd-greu datrysiadau
- Cryfhau partneriaethau a pherthnasoedd presennol
- Hyrwyddo'n weithredol arloesi a datrys problemau ar draws sectorau

CERRIG MILLTIR TYMOR CANOLIG:

- Cryfder ac arbenigedd rhanbarthol unigryw - arloesi ac entrepreneuriaeth ar sail lle
- Cynyddu mudoedd ymchwilwyr - drwy Ganolfannau EE, ymgysylltu â myfyrwyr yn gynnar yn eu taith academaidd, i gymryd rhan mewn ymchwil a gweld buddion hynny
- Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

UCHELGEISIAU TYMOR HWY:

- Codi proffil Cymru - arweinydd o ran arloesedd ac entrepreneuriaeth, cynyddu'r nifer o fusnesau newydd Cymreig, canlyniad taith organig drwy AB/AU a chyda pherthynas gyfforddus a naturiol ag arloesi ac entrepreneuriaeth yn defnyddio sgiliau a phrofiadau y mae myfyrwyr wedi datblygu drwy eu teithiau AU
- Cryfhau sylfaen ymchwil a KTE Cymru - mwy o fyfyrwyr a busnesau yn profi KT
- Twf rhyngwladol posib - gosod y bar yn uwch, normaleiddio a chyffredinolï arloesi, masnacheiddio ac entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr a staff, gan greu cenhadaeth sy'n fwy arloesol yn fasnachol o fyfyrwyr ac academyddion.

5. Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Amlinellwch sut bydd CAYC yn cefnogi gweithgarwch parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig sy'n seiliedig ar le yn faes eang sy'n ymgorffori amrediad helaeth o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau rhwng addysg bellach ac addysg uwch o safbwynt sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â'r cyhoedd drwy waith ymchwil, ac wynebu heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth ar gyfer y gymuned ar safle prifysgol ar gyfer, er enghraifft, digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]

Mae cenhadaeth ddinesig Prifysgol Glyndŵr Wreccsam yn adeiladu ar lwyddiant ymgysylltu a gweithredu ledled Gogledd Cymru (wedi'i ariannu gan CCAUC), a'n galluogodd i (i) ddeall ein rôl allweddol yng nghyd-destun blaenoriaethau rhanbarthol a lleol; ennill dealltwriaeth werthfawr ac adeiladu perthnasoedd y gellir ymddiried ynddynt â rhanddeiliaid a chymunedau ar draws y Rhanbarth; ac (ii) adnabod ar y cyd heriau a blaenoriaethau lleol ar gyfer gweithredu - a'u gwreiddiau systemig. Mae ein cenhadaeth ddinesig yn canolbwyntio ar flaenoriaeth allweddol i ogledd Cymru: Rhoi terfyn ar anghydraddoldeb cymdeithasol erbyn 2030, fodd bynnag mae'r her yn gymhleth. Mae'r dystiolaeth yn adroddiad A yw Cymru'n Decach? (2018) ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2020) yn dod i'r casgliad bod llawer mwy i'w wneud.

Rydym wedi datblygu fframwaith newydd (gweler y diagram isod) i gymryd rhan mewn sgysia, gan alluogi a chefnogi gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae ein cenhadaeth yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth, bydd y rhain

yn ffurfio canolbwynt ein strategaeth Cenhadaeth Ddinesig sefydliadol newydd, y disgwylyr iddi gael ei chymeradwyo yn hydref 2020.

- Blaenoriaeth 1: Gwytnwch cymunedol;
- Blaenoriaeth 2: Cadw'n iach;
- Blaenoriaeth 3: Arwain, llywodraethu a gweithio fel system gyfan.

Mae'r strategaeth newydd hon yn cael ei chyd-greu mewn partneriaeth ag arweinwyr rhanbarthol, gweithwyr proffesiynol a chymunedau

Bydd cyllid CAYC yn ein galluogi i ddarparu prosiectau cydweithredol sy'n cael effaith dan bob maes blaenoriaeth a fydd yn hybu ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar draws y Rhanbarth a chreu buddion cyfatebol. Bydd y gwaith hwn yn ffurfio sail ein Cytundeb Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig - dogfen a fydd yn nodi dull clir, ymatebol ac sy'n berthnasol yn rhanbarthol i gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn Wrecsam a gogledd Cymru

Ein cenhadaeth ddinesig a'n gwerthoedd yw'r elfen allweddol i gyflawni gweledigaeth 2025 y Brifysgol. Mae ein rôl fel Dirprwy Gadeirydd Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru sydd newydd ei sefydlu, yn dyst i'n hymrwymiad i weithio â'r sector Sefydliadau Addysg Uwch i rannu arferion gorau a chysylltu â Rhwydwaith Prifysgolion Dinesig y DU a'r Ganolfan Gydlyn Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Blaenoriaeth 1: Gwytnwch Cymunedol

Prifysgol Blant - bydd y Brifysgol yn creu Prifysgol Blant ranbarthol i gefnogi dysgu allgyrsiol ac annog plant a rhieni i ymwneud â dysgu. Partneriaeth yw'r prosiect Prifysgol Blant rhwng Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam <https://www.wrexhampsb.org/> o'r grŵp dysgu gydol oes â phartneriaid arweiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Choleg Cambria, bydd yn cefnogi ysgolion a gweithio mewn partneriaeth i gynyddu uchelgeisiau a chefnogi Cwricwlwm Cymru 2022 a bydd yn;

- Annog pobl ifanc i ymwneud â dysgu allgyrsiol
- Cefnogi dysgu ymhlith oedolion i fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau rhanbarthol

Bydd Rheolwr Prosiect a ariennir drwy CDCA yn cael ei gyflogi i reoli'r prosiect rhanbarthol, gyda chymorth gweinyddol gan Goleg Cambria, gan adeiladu dull consortiwm gyda rhanddeiliaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cynnwys y cynllun sgiliau rhanbarthol (<http://regionalskillsandemploymentplan.co.uk/#p=1>) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd cyllid CAYC yn cael ei ddefnyddio i sefydlu Prifysgol Blant a datblygu cynllun busnes cadarn a model ar gyfer darparu yn y blynyddoedd dilynol.

Sgyrsiau Cymunedol mewn partneriaeth - gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector mewn tair cymuned yng ngogledd-ddwyrain Cymru (ariennir gan Gronfa Trawsnewid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol <https://www.northwalescollaborative.wales/regional-partnership-board/>). Gyda ffocws ar Gymru Iachach, mae'n anelu at wella canlyniadau iechyd ar draws cymunedau drwy ddeall heriau a chreu datrysiadau ar y cyd. Bydd cyllid CAYC yn cael ei ddefnyddio i annog cymunedau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â chymunedau i ymwneud ag arweinyddiaeth systemau a naratif cyhoeddus. Mae'r gweithgareddau hyn yn alinio â blaenoriaethau gwytnwch cymunedol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd astudiaethau achos a gwerthusiadau myfyriol yn cofnodi canlyniadau.

Blaenoriaeth 2: Cadw'n iach

Presgripsiynu Cymdeithasol Cymuned Ymarfer (CoP) – Defnyddio cyllid CAYC i ariannu digwyddiadau mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Mudiad 2025 <https://2025movement.org/>, gan adeiladu ar y gymuned ymarfer lwyddiannus ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yr ydym yn ei harwain â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o fudiad 2025 i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi. Bydd tri digwyddiad CoP yn cael eu cynnal yn 2020/21 o amgylch themâu allweddol a bennir gan y gymuned yn cynnwys effaith, ymchwil, cyllid a dysgu/addysg. Bydd ymarferwyr ac aelodau'r gymuned ar draws gogledd Cymru yn cael cyfle i ddysgu, datblygu ac archwilio systemau lles cenedlaethol/rhanbarthol ac anghenion sgiliau ar sail lle. Bydd digwyddiadau hefyd yn cynnwys effaith COVID 19: mynd i'r afael ag unigrywdd, arwahanrwydd, cefnogi iechyd meddwl a chadw'n iach.

Prosiect partneriaeth rhwng Cymunedau a Phrifysgolion Wedi'u Llywio gan Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE) - mewn partneriaeth â Chanolfan Genedlaethol ACE a Mudiad Cymdeithasol 2025, ni yw'r sefydliad AU cyntaf sy'n gweithio tuag at fod yn Brifysgol TrACE, gan weithio gyda phartneriaid byddwn yn cofnodi a rhannu'r dysgu ar draws y sector ac yn ehangach https://issuu.com/acesupporthub/docs/briefing_paper_ace_hub_-_trauma_informed_approach_

Fel partneriaeth, byddwn yn gweithio ar draws y rhanbarth yn archwilio a phrofi dull TrACE mewn cymunedau gan weithio tuag at yr uchelgais o ddod yn Gymdeithas Wedi'i Llywio gan Drawma. Bydd cyllid yn cefnogi capasiti ymchwil a chymorth i'r prosiect ochr yn ochr â Chanolfan Genedlaethol ACE.



Prosiectau arloesi dan arweiniad myfyrwyr ar sail lle - bydd cyllid CAYC yn cefnogi rhaglen o brosiectau cymunedol i ddatblygu gwynwch cymunedol, a gefnogir gan academyddion a myfyrwyr, sy'n adeiladu ar fodel llwyddiannus yn gweithio â phartneriaid AVOW (<https://avow.org/>) and FLVC (<https://www.flvc.org.uk/en/>), ac yn ymestyn y rhaglen gwirfoddoli lwyddiannus sy'n gweithio'n uniongyrchol â phrosiectau cymunedol mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr. Bydd myfyrwyr yn cael profiad o wirfoddoli a mynd i'r afael â materion a heriau cymdeithasol a'u deall.

Blaenoriaeth 3: Arwain, llywodraethu ac arweinyddiaeth systemau

Bydd cyllid CAYC yn sefydlu Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru yn cynnwys gofod corfforol yn Llanelwy (y 'Gofod'/Space) a gofod deallusol i gydweithio ar draws sectorau a chymunedau gan adeiladu rhaglenni ymchwil, archwilio cyweithiau a chyllid prosiect-benodol i weithio â phartneriaid a chymunedau yn cynnwys gweithio â Mudiad 2025 (<https://2025movement.org/>), gan ddatblygu i fod y brifysgol wedi'i llywio gan drawma gyntaf a pharu â Chanolfan Genedlaethol ACE (<https://www.aceawarewales.com/>), yn adeiladu cymunedau iachach a chefnogi'r grŵp adfer rhanbarthol gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol. Bydd y Labordy yn datblygu rhaglen o ddigwyddiadau o amgylch themâu allweddol ar y cyd â phartneriaid i rannu dysg ac archwilio problemau wrth ymgysylltu cymunedau ag ymchwil a datrysiadau ymarferol. Bydd y Labordy yn bodloni blaenoriaethau strategol rhanbarthol a chenedlaethol drwy sefydlu cyweithiau a phartneriaethau gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gefnogi

ffocws ymchwil gwasanaethau cyhoeddus ar draws y Rhanbarth a thyfu cymuned o arweinwyr rhanbarthol i gyflawni newid trawsffurfiol.

Bydd ein dull cydweithredol yn ymateb hefyd i'r heriau economaidd a chymdeithasol a fydd yn codi'n sgil Covid-19.

Civic Mission Framework for Wrexham Glyndwr University 2020-  

COMMITMENT & FOCUS


Our mission is to help you:
End social inequality across North Wales by 2030.

Our aim is to be useful to you in this work by working with, and for, you innovating, co-creating, testing and delivering new approaches to:

1. Community resilience
2. Keeping well
3. Leadership, Governance and whole system working

CAPACITY & ENABLE

Our Role in WGU is to enable collective action by:



Original concept by the Design Council

To enable and deliver for this collective mission we would in partnership establish a 'North Wales Public Service lab *Learn together- Lead together*

OUTCOME




5.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol ar ganol llunio strategaeth cenhadaeth ddinesig newydd wedi'i chyd-greu â'n partneriaid a chymunedau. Bydd y genhadaeth ddinesig newydd yn cael ei lansio yn Hydref 2020 a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth.

Rydym wedi mapio'r dangosyddion perfformiad allweddol strategol i gyfraniad yn erbyn y 7 nod llesiant a'r 46 dangosydd llesiant <https://gov.wales/well-being-wales-national-indicators>

Amcanion Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu	Sut allwn ni fesur hyn?	Dangosydd (ion) Perfformiad Strategol	Cyfraniad i Llesiant ar gyfer Cymru: 46 dangosydd cenedlaethol
Cenhadaeth Ddinesig a grëwyd ar y cyd - i roi terfyn ar anghydraddoldeb cymdeithasol erbyn 2030.	Cytundeb ar y cyd i gydweithio - ar heriau cymdeithasol ar y cyd	<ul style="list-style-type: none"> • Cytundeb Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig (addewid Comisiwn Prifysgolion Dinesig UPP) 	46
Gwytnwch Cymunedol - Gwrando ac ymgysylltu â chymunedau	Sefydlu Prifysgol Blant ranbarthol Gweithio mewn partneriaeth mewn 3 cymuned - adnabod heriau cymunedol a chyd-greu datrysiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr ysgolion a disgyblion sy'n cymryd rhan (llwyfan Prifysgol Blant) + 3 mewn cynllun peilot i gynyddu i dros 20 ym mlwyddyn 2 • Nifer yr oriau yr ymgysylltir pobl ifanc - Meincnod yn ystod y flwyddyn beilot • Adborth gan bobl ifanc yn ystod graddio - Meincnod yn ystod y flwyddyn beilot • 3 Astudiaeth achos/ prosiect dan arweiniad y gymuned • 1 Papur ymchwil 	05 06 08 22 35 38 23

Cylchlythyr CCAUC W20/09HE: Atodiad B

<p>Cadw'n iach - cefnogi pobl, cymunedau a sefydliadau i fod yn iach a chadw'n iach</p>	<p>Cefnogi a galluogi gweithredu model Presgripsiynu Cymdeithasol</p> <p>Prifysgol a Chymunedau Wedi'u Llywio gan Drawma mewn partneriaeth â Chanolfan Genedlaethol ACE a Mudiad 2025</p> <p>Prosiectau arloesi dan arweiniad myfyrwyr ar sail lle mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 3 Digwyddiad Cymuned Ymarfer i'w cynnal yn 2020/21 a bob blwyddyn ar ôl hynny ar draws gogledd Cymru gyda 300 o ymarferwyr • 3 phrosiect yn ymgysylltu ar draws gogledd Cymru - astudiaethau achos • Adroddiad gwersi a ddysgwyd/astudiaeth achos ynghylch dod yn Brifysgol wedi'i llywio gan drawma • 1 cynhadledd i rannu dysg ar draws sectorau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith cenhadaeth ddinesig yng Nghymru a Lloegr • Sefydlu partneriaeth ac ennyn, profi a datblygu prosiect cymunedau wedi'u llywio gan drawma. • 100 diwrnod o ddiwrnodau lle mae staff a myfyrwyr yn gwirfoddoli'n actif mewn cymunedau 	<p>03 29 28</p>
<p>Arwain, Llywodraethu a gweithio fel system gyfan - galluogi a darparu lle diogel ac arbenigedd i alluogi gweithredu ar y cyd. Profi, darparu a rhannu dysg i fynd i'r afael ag</p>	<p>Sefydlu Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 1 partneriaeth/cytundeb/ymchwil ar y cyd • 10 Rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer cymuned o arweinwyr - yn seiliedig ar genhadaeth ddinesig • 5 prosiect ar sail lle/problem yn ymgysylltu â'r tîm Labordy • 4 tîm academiaidd yn cymryd rhan mewn ymchwil â phrosiectau cymunedol 	<p>18 24 27 30 34</p>

anhydraddoldeb cymdeithasol		<ul style="list-style-type: none"> • 2 Astudiaeth achos strategol o genhadaeth Ddinesig 	
<p>5.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:</p>			
<p> <input checked="" type="checkbox"/> X Rhagoriaeth <input checked="" type="checkbox"/> X Lle <input checked="" type="checkbox"/> X Arloesi <input checked="" type="checkbox"/> X Cydweithredu </p>			
<p>5.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?</p>			
<p>[Uchafswm o 250 o eiriau]</p> <p>Mae ein dull ac uchelgeisiau strategol yn cydnabod a chefnogi Pedair Eifen y Weledigaeth: Rhagoriaeth, Lle, Arloesedd a Chydweithredu. Rydym wedi datblygu'n glir strategaeth gydweithredol, ar sail lle a chynllun gweithredu, a fydd yn darparu sylfaen ar gyfer arbenigedd ymchwil ac arloesi yn ogystal â mynd i'r afael â heriau systemig sy'n cyfyngu ar lesiant economaidd a chymdeithasol. Ein nod yw datblygu sylfaen dystiolaeth ymchwil o safon uchel, a fydd yn hybu arloesedd ar draws sectorau ac yn annog partneriaid hen a newydd i ymwneud â mudiad sy'n mynd i'r afael â chynyddu ffyniant cymdeithasol ac economaidd ledled Cymru.</p> <p>Mae ein meysydd blaenoriaeth a'r prosiectau sy'n sail iddynt, yn meithrin cyweithiau ag AB a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn alinio ag ysgogwyr economaidd a nodwyd yn y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol. Maent yn cefnogi trosglwyddiad ysgolion i Gwricwlwm i Gymru 2022 a'r Pedwar Diben ar gyfer dysgu myfyrwyr. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu cymuned ffyniannus o her a chwilfrydedd gyda Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Profi ffyrdd newydd o weithio ar draws sectorau i wynebu heriau cymdeithasol ac economaidd gwahanol. Bydd hyn yn adeiladu ein capasiti ar gyfer ymchwil ac ymchwil gymhwysol mewn partneriaeth â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r dull Labordy hefyd yn cefnogi a chreu cyfleoedd i roi hwb i arloesedd gyda modelau newydd o ymchwil, dealltwriaeth, datblygu a darparu. Bydd cynnwys pob partner yn y ffordd agored hon yn adeiladu capasiti ac ymrwymiad i gydweithio. Bydd hefyd yn ein galluogi i negodi cyllid a datblygu arbenigedd ar draws meysydd blaenoriaeth yn seiliedig ar le, megis anhydraddoldeb cymdeithasol ac anhydraddoldeb iechyd a hybu arloesedd ar draws sectorau.</p>			

Adran C: Alinio â pholisi a blaenoriaethau

6. Polisi Cymru a'r DU

Disgrifiwch sut mae eich strategaeth CAYC yn alinio â pholisïau rhanbarthol, Cymru a'r DU sy'n seiliedig ar le, fel, er enghraifft, bargeinion twf dinas-ranbarth lleol / rhanbarthol; [Ffyniant i Bawb gan Lywodraeth Cymru: y cynllun gweithredu ar yr economi](#); [Strategaeth Ddiwydiannol y DU](#); [Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus](#); [Sefydliad Prifysgolion Dinesig UPP](#); [Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid](#); Gwyddoniaeth i Gymru; Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ac ati.
[Uchafswm o 500 o eiriau]

Bydd ein helfennau Menter ac Arloesi a Chenhadaeth Ddinesig o CAYC yn ymateb yn uniongyrchol i, ac yn alinio â, nifer o strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol allweddol a sefydlwyd gyda'r Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru arfaethedig, a fydd yn darparu gofod damcaniaethol a chorfforol i arweinwyr archwilio heriau a chydweithio ar ddatrysiadau effeithiol.

POLISI CYMRU A'R DU	Sut mae strategaeth CAYC WGU yn alinio
Ffyniant i Bawb gan Lywodraeth Cymru; y Cynllun Gweithredu ar yr Economi	Hybu ffyniant a thwf cynaliadwy drwy edrych ar glystyrau ar sail lle, gan ddarparu cymorth Canolfannau EE strwythuredig a rhoi'r sgiliau priodol i bawb ar gyfer byd sy'n newid. Mae'r prosiectau arfaethedig ar gyfer cenhadaeth ddinesig yn y CAYC yn alinio'n uniongyrchol â chynllun Llywodraeth Cymru yn enwedig gweithio mewn ffyrdd gwahanol ochr yn ochr â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda ffocws ar gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y 7 nod llesiant gyda Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae ein dull unigryw i gyd-greu ein cenhadaeth ddinesig ar draws y gymdeithas yn ein rhanbarth yn golygu y gallwn wrando ar bob partner a chymdeithas a gweithio â nhw i sicrhau ein bod yn gweithio ar yr heriau gyda'n gilydd. Gall ein cenhadaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol fel blaenoriaeth allweddol a sail i brosiectau helpu i gyflawni ffyrdd newydd sylweddol o weithio â'r Brifysgol Blant gan gefnogi'r blynyddoedd cynnar a phrosiectau TrACE. Bydd ein gwaith â'r bwrdd lechyd a'r prosiect gwytnwch cymunedol yn darparu ffocws ar iechyd, llesiant a chadw'n iach
Bargen Twf Gogledd Cymru	Mae defnyddio buddsoddiad CAYC i ddatblygu canolfannau EE yn ategu blaenoriaethau gweithgynhyrchu uwch rhanbarthol i ddatblygu clystyrau gweithgynhyrchu gwerth uchel, yn benodol cefnogi BBaChau.
Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru, Mai 2019	Bydd cyllid CAYC yn anelu at roi hwb i gynhyrchiant busnesau Cymru drwy ddarparu cymorth, ymchwil ac arloesi wedi'u teilwra, gan hybu ffyniant economaidd a gwella safbwynt byd-eang sylfaen ymchwil Cymru.
Strategaeth Ddiwydiannol y DU	Nod y Strategaeth Ddiwydiannol yw rhoi hwb i gynhyrchiant drwy gefnogi busnesau i greu swyddi da a chynyddu gallu i ennill cyflog pobl ledled y DU gyda buddsoddiad mewn sgiliau, diwydiannau a seilwaith. Ein strategaeth yw creu gweithwyr

	arloesol ac entrepreneuriaidd a Chanolfan ymchwil ac arloesi hygyrch y gall busnesau ei defnyddio ac sy'n alinio â chlystyrau sector rhanbarthol
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	(Sir y Fflint/Wrecsam a'r Rhanbarth) - Fel aelod gweithredol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir y Fflint a Wrecsam, mae'r prosiectau a blaenoriaethau arfaethedig yn y CAYC yn alinio â chynlluniau llesiant y ddau Fwrdd (2018-23). Fel rhan o'n gwaith cenhadaeth ddinesig a sefydlu Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru, rydym yn hwyluso a galluogi sesiwn ar y cyd rhwng y ddau Fwrdd i gefnogi dysgu drwy COVID 19 gan adeiladu gwytnwch cymunedol ar draws yr is-ranbarth. Mae'r prosiect Prifysgol Blant wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag is-grŵp dysgu gydol oes Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Coleg Cambria, Prifysgol y Drydedd Oes ac AVOW (y trydydd sector).
Cynllun sgiliau rhanbarthol a Bargaen Twf Gogledd Cymru	Ffocws ar gyfer y Brifysgol Blant yw sefydlu consortiwm Prifysgol Blant â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a'r cynllun sgiliau rhanbarthol, cynllun ar gyfer y prosiect yw datblygu rhaglen o gyrsiau byrion i gyflwyno rhieni i addysg ac alinio'r cyrsiau byrion hyn â'r sectorau allweddol Ynni a'r Amgylchedd, Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch ac Adeiladu a'r sectorau twf. Gall hyn helpu rhieni plant i ymwneud ag addysg a chefnogi datblygu sgiliau a'r adferiad economaidd a chymdeithasol wedi Covid-19.
Sefydliad Prifysgolion Dinesig UPP	Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu cytundeb prifysgol ddinesig sy'n ffocws allweddol gan y Sefydliad. I gyflawni hyn, rydym yn cyflwyno cenhadaeth ddinesig wedi'i chreu ar y cyd ag arweinwyr a chymunedau ar draws pob rhan o'r gymdeithas a bydd yn cael ei datblygu yn gytundeb partneriaeth/prifysgol ddinesig sy'n cael ei siapio ar y cyd gyda ffocws ar brosiectau sy'n gallu ein helpu i gyflawni. Fel Prifysgol rydym hefyd yn rhan o'r Rhwydwaith Prifysgolion Dinesig sydd newydd ei sefydlu dan arweiniad Prifysgol Sheffield Hallam a Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru dan arweiniad Prifysgolion Cymru. Rydym hefyd wedi ymrwmo i egwyddorion ymgysylltu â'r cyhoedd a osodwyd gan Ganolfan Gydyntu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd (NCCPE).
Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid	Rhoi sgiliau, agweddau a phrofiad entrepreneuriaidd i fyfyrwyr (a staff) drwy weithio mewn Canolfannau EE, gan godi dyheadau a darparu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesi o fewn y brifysgol
Cymru Iachach - Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Mae'r 'Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yng ngogledd Cymru a Nodau Pedwarplyg 'Cymru Iachach' yn elfen graidd o'r prosiectau gwytnwch cymunedol arfaethedig. Rydym wedi sicrhau cronfa trawsnewid fel aelod allweddol o'r Gweithredu Lleol yn ardal y de-ddwyrain gyda nifer o bartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i brofi ac archwilio datblygu mentrau arloesol, newydd, gan lywio sylfaen dystiolaeth ar gyfer newid ledled Cymru. Rydym yn gweithio gyda 3 cymuned i archwilio'r heriau a datblygu datrysiadau ar gyfer newid, bydd cyllid CAYC yn ymestyn y rhain a phrosiectau TrACE i fanteisio i'r eithaf ar effaith arian y sector cyhoeddus, gan sicrhau canlyniadau iechyd

	a llesiant gwell i bobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd ac anghydraddoldeb, a fydd yn cefnogi ffyniant cymdeithasol ac economaidd.
--	--

7. Bodloni gofynion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU

Rhaid i sefydliadau yng Nghymru ddangos ymrwymiad ac aliniad ag egwyddorion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU drwy eu strategaethau CAYC. Bydd cam datblygu'n cael ei gynnal yn ystod 2020-21 er mwyn gweithredu model ar gyfer Cymru.

Ar gyfer y cam cychwynnol hwn, rydym yn gofyn i sefydliadau gadarnhau eu bod yn ymwybodol, drwy eu strategaethau, o egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a amlinellwyd fel rhan o'r [ymgyngoriad](#) cychwynnol, a'u bod yn ymrwymedig i alinio â'r egwyddorion drwy fodel Cymru ar gyfer ymgysylltu. Gellir cyflwyno strategaethau CAYC diwygiedig yn flynyddol fel rhan o'r weithdrefn fonitro, a chaiff y broses hon ei defnyddio i ddangos ymrwymiad llwyr i'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn dilyn y flwyddyn ddatblygu.

[Uchafswm o 500 o eiriau]

Egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth

Mae WGU yn cefnogi'r wyth egwyddor arweiniol a amlinellir isod ac mae ein Strategaeth yn sicrhau y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu bodloni:

Egwyddor 1. Cenhadaeth: Mae cyfnewid gwybodaeth yn rhan gydnabyddedig o strategaeth gyffredinol y sefydliad. Mae gennym ddealltwriaeth glir o rôl y sefydliad a diben Cyfnewid Gwybodaeth a phwy yw'r darpar fuddiolwyr.

Egwyddor 2. Polisiâu: Mae gennym bolisiâu clir ar y mathau o Gyfnewid Gwybodaeth a ddefnyddiwn ac rydym yn gweithio gyda staff, myfyrwyr, cydweithredwyr a buddiolwyr fel bod y polisiâu yn ddealladwy.

Egwyddor 3. Ymgysylltu: Mae gennym bwyntiau mynediad clir, mecanweithiau ymgysylltu a pholisiâu wedi'u datblygu i weddu i anghenion ystod eang o fuddiolwyr sy'n gweithio â sefydliadau fel cyrff a ariennir yn gyhoeddus.

Egwyddor 4. Gweithio'n effeithiol: Rydym yn gwneud yn siŵr bod ein partneriaid a buddiolwyr yn deall yr amgylcheddau rheoliadol moesegol ac elusennol y mae ein sefydliad yn gweithredu ynddyn nhw ac rydym yn cymryd camau i fanteisio i'r eithaf ar y budd iddyn nhw o fewn y cyd-destun hwnnw.

Egwyddor 5. Adeiladau gallu: Rydym yn sicrhau bod ein staff a myfyrwyr yn cael eu datblygu a'u hyfforddi'n briodol i ddeall ac ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth Gyfnewid Gwybodaeth yn llwyddiannus.

Egwyddor 6. Cydnabyddiaeth a gwobrau: Rydym yn cydnabod a gwobrwyo cyflawniadau staff a myfyrwyr sy'n perfformio gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth uchel eu hansawdd.

Egwyddor 7. Gwelliant parhaus: Rydym yn ymdrechu'n rhagweithiol i rannu arferion gorau gyda'n cymheiriaid ac wedi sefydlu prosesau ar gyfer dysgu o hyn.

Egwyddor 8. Gwerthuso llwyddiant: Rydym yn cynnal gweithgaredd monitro ac adolygu sefydliadol ar y cyd o'n perfformiad Cyfnewid Gwybodaeth atgyfnerthol gan ddefnyddio'r concordat a thrwy feincnodau rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel sail i ddatblygiad a gweithredu rhaglen o welliannau parhaus

Roedd ymgynghoriad y Concordat yn ceisio sylwadau ar y canlynol:

- *helpu prifysgolion a'u staff a myfyrwyr i wneud y genhadaeth yn fwy clir* - mae'r strategaeth yn amlygu'n glir ymrwymiad WGU i gefnogi myfyrwyr ac academyddion i fod yn entrepreneuriaid o ran eu hysbryd, arbenigwyr yn eu maes gwaith, dangos ymrwymiad a gallu i rannu gwybodaeth er budd y rhanbarth.
- *cefnogi eu datblygiad* - mae'r Strategaeth yn amlinellu ein cynllun i gynyddu adnoddau i gefnogi datblygiad academyddion yn eu gweithgarwch ymchwil, addysgu ac ymgynghori a'n Rhaglen Entrepreneuriaeth i ddatblygu entrepreneuriaid y dyfodol.
- *rhoi cynrychiolaeth gywir o ddulliau a chryfderau prifysgolion unigol i bartneriaid* - bydd WGU yn cynyddu ei phroffil ymchwil a datblygu meysydd arbenigedd penodol i gynnwys Cynhwysiant Cymdeithasol, Gyriant gwyntyll drydan, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Presgripsiynu Cymdeithasol etc.
- *darparu dangosyddion clir o'u dulliau i ddatblygu a gwella perfformiad* - mae WGU wedi amlinellu ei thargedau ac uchelgeisiau a fydd yn destun craffu drwy olrhain Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewn Adolygiadau Datblygu Perfformiad etc.
- *rhoi hyder cyffredinol i gyrff llywodraethu a'r llywodraeth yn y gweithgarwch a gynhelir mewn prifysgolion* - mae WGU wedi ymrwymo i weithio â'r llywodraeth, gyrff sicrhau ansawdd a chyllido i ddarparu darpariaeth addysg o'r radd flaenaf, gan adeiladu ar ei chryfderau ac adnabod meysydd ar gyfer gwella. Rydym yn gweithio ar gyflwyniadau RDAP a REF i wella ein statws Prifysgol.

8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Rhowch wybodaeth benodol am sut bydd y strategaeth CAYC yn cefnogi'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio a geir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#).
[Uchafswm o 250 o eiriau]

Prif ffocws a chanlyniad yr elfen cenhadaeth Ddinesig o'r CAYC yw cyflawni cynnydd ac arloesi yn erbyn y 7 nod llesiant ac alinio hyn â'r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy, gan weithio ar y cyd â phartneriaid. Y ddeddfwriaeth arloesol fydd y fframwaith a ddefnyddiwn i weithio ochr yn ochr â phartneriaid a chymunedau fel rhan o'r newid diwylliannol a ffocws ar groesawu ffyrdd newydd o weithio a darparu tystiolaeth ac ymchwil glir sy'n fframio'r cwestiynau cywir law yn llaw â phartneriaid yr ymchwil honno, sy'n arloesol ac yn cael ei chymhwyso i wella bywydau a ffyniant economaidd.

Mae'r Saith Nod Llesiant Cenedlaethol a geir o fewn y Ddeddf wrth wraidd y ffocws ar genhadaeth ddinesig - Cymru lewyrchus, gydnerth, fwy cyfartal, iachach ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a Chymru llawn cymunedau cydlynol, gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Yn benodol, bydd y prosiectau gwytnwch cymunedol yn adeiladu a chefnogi gwytnwch cymunedol a'n helpu i ymateb i'r heriau y mae cymunedau yn eu

hwynebu mewn partneriaeth â phob partner yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd cefnogi cadw'n iach a chanolbwyntio ar bresgripsiynu cymdeithasol yn cefnogi ymdrech tuag at system Lesiant Genedlaethol a nodir yn yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Bydd gweithredu fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Wrecsam a Sir y Fflint a chefnogi'r Grŵp Cydlynu Adferiad Rhanbarthol yn ffocws allweddol i Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Dyma leoliad i swyddogion ac arweinydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol ddod ynghyd, a chyda'n cefnogaeth ym meysydd ymchwil a galluogi, gallwn archwilio'r posibilrwydd o adfer a datblygu posibilrwydd newydd o gydweithio a gwella bywydau a llewyrch pobl a chymunedau yng ngogledd Cymru gyda ffocws ar wytnwch cymunedol.

7 Nod Llesiant	Sut ydym yn cyflawni nodau Llywodraeth Cymru	5 ffordd o weithio
Cymru Lewyrchus	Rhoi sgiliau i fyfyrwyr ddatrys problemau a datblygu o fewn diwylliant o arloesi a menter	Atal
Cymru Gydnherth	Adeiladu gweithlu mwy gwydn ar gyfer y dyfodol drwy ddysgu mewn amgylchedd sy'n annog datrys problemau ac arloesi	Tymor Hir
Cymru Iachach	Rhoi mynediad i fyfyrwyr at fframwaith ymchwil ac arloesi cwbl weithredol, gan eu paratoi at weithio yn y diwydiant yn y dyfodol, codi dyheadau a gwella canlyniadau myfyrwyr	Integreiddio
Cymru Fwy Cyfartal	Rhoi'r cyfle i bob myfyriwr ymgysylltu â gweithgareddau Canolfannau EE yn ogystal â busnesau a chymunedau lleol.	Cydweithio
Cymru Llawn Cymunedau Cydlynol	Drwy ymgysylltu dinesig a gweithio ar y cyd â chymunedau lleol	Cynnwys
Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang	Gweithio tuag at greu datrysiadau mwy cynaliadwy drwy arloesi	
Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu	Cefnogi'r strategaeth iaith Gymraeg a darparu cyfleoedd i ddysgu a gweithio'n Gymraeg	

9. Effaith ar y Gymraeg

Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y caiff buddsoddiad CAYC ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol, efallai y byddwch am gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu [Cymraeg 2050](#). [Uchafswm o 250 o eiriau]

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Cynigir gwersi Cymraeg i staff a myfyrwyr tra maent yn y Brifysgol ac mae gennym Strategaeth Defnydd o'r Gymraeg i gynyddu'r nifer o bobl a gyflogir gan y brifysgol sy'n gallu siarad Cymraeg.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Er bod WGU wedi'i lleoli ar y ffin gyda Lloegr ac yn rhanbarth Saesneg ei iaith yn bennaf, byddwn yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo'n briodol. Byddwn yn pwysleisio pwysigrwydd rheoliadau safonau'r Gymraeg mewn busnes, pwysigrwydd hynny i gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth posibl yn y dyfodol a sut mae cyllidebu ar gyfer costau cyfieithu. Byddwn yn darparu adnoddau yn ddwyieithog a chynnig gwasanaeth Cymraeg drwy ein Swyddog Cyfathrebu Dwyieithog.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – is-adeiledd a chyd-destun:

Bydd creu rôl Swyddog Cyfathrebu Dwyieithog newydd yn sicrhau bod y buddsoddiad CAYC yn gwella ac yn cyfoethogi'n uniongyrchol y gefnogaeth Gymraeg yn WGU. Bydd y gwersi a ddysgir ar y cam yma yn natblygiad myfyrwyr yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer creu amodau ffafriol yn eu lleoedd gwaith yn y dyfodol a'u helpu i ddeall pwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun gwaith/diwydiant.

Adran D: sicrwydd ariannol

10. Defnyddio cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

Sut mae eich dyraniad CAYC ar gyfer 2020/21 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a amlinellwyd yn Adran B, a beth yw'r blaenoriaethau a ragwelir gennych ar gyfer defnyddio cyllid CAYC dros y blynyddoedd nesaf? [Uchafswm o 250 o eiriau – neu rhowch dabl sy'n amlinellu meysydd buddsoddi bras ynghlwm wrth y ddogfen hon]

Gweler tabl isod am fanylion ynghlwm â'n dyraniad CAYC a sut bydd yn cyflawni'r nodau a amlinellir yn y strategaeth yn adran B.


Gweler Tabl 1 ynghlwm.

Adran E:

Gofynion rheoliadol

Noder: Gallai CCAUC ofyn am wybodaeth / eglurhad pellach ar unrhyw un o'r meysydd hyn

Cylchlythyr CCAUC W20/09HE: Atodiad B

<p>i) Safonau'r Gymraeg (2018) <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i></p>	<p>Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2018</p>
<p>ii) Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i></p>	<p>Mae aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal ar gyfer y strategaeth hon</p>
<p>iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) <i>[Defnyddiwch y gwymplen]</i></p>	<p>Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015</p>
<p>Llofnod: Is-Ganghellor</p>	
<p>Dyddiad</p>	<p>30/06/2020</p>